# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 - Ty Hywel** | |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2013** | |
| Amser: | **09:45 - 11:50** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_500000_20_11_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Elin Jones**<br>**Sandy Mewies (yn lle Ann Jones)**<br>**Eluned Parrott** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Steve George (Clerc)**<br>**Kath Thomas (Dirprwy Glerc)**<br>**Graham Winter (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones. Dirprwyodd Sandy Mewies ar ei rhan.

## 2 Craffu ar Waith y Gweinidog – Cydberthynas Llywodraeth Cymru â'r Trydydd Sector a'r Sector Preifat

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Prif Weinidog yn y meysydd a ganlyn mewn perthynas â'r trydydd sector/cyrff anllywodraethol:

- Rôl y trydydd sector o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- Cyllid a chystadleuaeth;
- Llywodraethu; a
- Gwerth am arian.

2.2 Yn dilyn hynny, craffodd y Pwyllgor ar waith y Prif Weinidog yn y meysydd a ganlyn mewn perthynas â'r sector preifat:

- Gweithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru;
- Defnydd Llywodraeth Cymru o fyrddau cynghori a arweinir gan y sector preifat;
- Rôl bosibl y sector preifat o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol; ac
- Effaith polisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar fusnes.

2.3 Gofynnodd y Cadeirydd nifer o gwestiynau i'r Prif Weinidog a anfonwyd at y Pwyllgor gan sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd, a hynny gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

2.4 Cytunodd y Prif Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am:

- Ba rai o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan,* a gafodd eu derbyn a'u gweithredu;
- Y gwahaniaeth y mae'r cynllun grantiau cydraddoldeb wedi'i wneud i'r trydydd sector ac i'r sefydliadau sydd wedi cael cyllid, ac i ddull Llywodraeth Cymru o fonitro'r cynllun;
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn mesur effeithiolrwydd Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru.

2.5 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ragor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer y grwpiau gorchwyl a gorffen.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4 Trafod y dystiolaeth o'r sesiynau blaenorol

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd gan y Prif Weinidog yn ystod y sesiwn graffu flaenorol.

## 5 Trafod ymateb y Prif Weinidog i argymhellion y Pwyllgor yn dilyn ei gyfarfod diwethaf

5.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb y Prif Weinidog i'r llythyr a anfonwyd gan y Pwyllgor ar seilwaith gogledd Cymru yn dilyn ei gyfarfod yng ngogledd Cymru ar 19 Gorffennaf. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am eglurder ar nifer o faterion.